**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

16 Mai 2025

Annwyl Huw,

**Hybu Cig Cymru**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Mai i roi tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i Hybu Cig Cymru. Mewn trafodaethau preifat ar ôl y cyfarfod, roedd yr Aelodau yn chwilfrydig am y berthynas rhwng HCC a byrddau ardollau tebyg eraill. Yn amlwg, mae'r sefydliadau hyn yn cystadlu'n uniongyrchol â'i gilydd mewn rhai meysydd, ond nid ydynt yn cystadlu mewn meysydd eraill a gallent gydweithio yn y meysydd hynny. A fyddech cystal â rhoi eich barn am y berthynas rhwng HCC a'i gymheiriaid gan ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Beth yw'r berthynas bresennol rhwng HCC a byrddau ardollau eraill yn y DU, yn benodol y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a Quality Meat Scotland?
- Faint mae'r sefydliadau'n cydweithio â'i gilydd ar hyn o bryd? A allech chi roi enghreifftiau?
- A yw Llywodraeth Cymru a/neu HCC wedi archwilio ffyrdd i rannu adnoddau ac arfer gorau ymhellach (mewn meysydd nad ydynt yn gystadleuol) rhwng y sefydliadau hyn?
- Beth yw eich barn chi am sut y dylai'r berthynas rhwng y sefydliadau hyn edrych yn y dyfodol ac a fydd rhagor o gydweithio â byrddau ardollau eraill yn cael ei adlewyrchu yng nghytundeb fframwaith newydd Llywodraeth Cymru â HCC?

Gan fod yr ymchwiliad hwn yn ymwneud â gweithrediad sefydliad penodol, hoffwn gwblhau'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi rhoi gweithlu neu fwrdd HCC o dan straen diangen

ychwanegol. I gynorthwyo yn yr ymdrech hon, a fyddech cystal ag ymateb i'r llythyr hwn erbyn 29 Mai.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg